



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau
Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: Wylfa@pins.gsi.gov.uk

At yr holl Bartion â Buddiant, Partion
Statudol ac Unigolion Eraill

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010007

Dyddiad: 25 Medi 2018

Annwyl Syr/Fadam

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adran 88 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) – Rheol 6

Cais gan Horizon Nuclear Power am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd

Penodi'r Awdurdod Archwilio

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy mhenodiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel aelod arweiniol Panel a fydd yr Awdurdod Archwilio i gynnal archwiliad o'r cais uchod gan Horizon Nuclear Power. Aelodau eraill y panel yw Peter Braithwaite, Joanna Dowling, Michael Hayes a Clive Sproule. Gellir gweld copi o'r llythyr penodi yn:

[https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/projects/EN010007/EN010007-001845-Bilingual%20WYLFA%20Panel%20Appointment%20Notice%20\(W\).pdf](https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/projects/EN010007/EN010007-001845-Bilingual%20WYLFA%20Panel%20Appointment%20Notice%20(W).pdf)

Gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Mae'r llythyr hwn yn eich gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol i drafod y ffordd y bydd y cais yn cael ei archwilio. Hoffem ddiolch i'r rhai a gyflwynodd Gynrychiolaethau Perthnasol. Mae'r rhain wedi ein helpu i baratoi ein cynigion ynghylch sut y byddwn yn archwilio'r cais hwn.

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mawrth 23 Hydref 2018

Seddau ar gael o: 9.00am

Y cyfarfod yn dechrau: 10.00am

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/>

Lleoliad: **Maes Sioe Ynys Môn, Gwalchmai, Caergybi, LL65 4RW**

Mynediad a pharcio: **Mynediad llawn i bobl anabl ac mae parcio rhad ac am ddim ar gael yn y lleoliad**

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol yw eich galluogi i roi eich barn i ni ynghylch y ffordd y bwriadwn archwilio'r cais. Ar y cam hwn, byddwn yn ystyried y weithdrefn, ac nid rhinweddau'r cais. Bydd rhinweddau'r cais yn cael eu hystyried dim ond ar ôl i'r Archwiliad ddechrau, sef y diwrnod ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol orffen.

Rydym yn dymuno cynnal cyfarfod teg, effeithlon ac effeithiol fel y gellir clywed pob safbwynt perthnasol. Fel y cyfryw, rydym yn annog yn gryf grwpiau o unigolion sydd â safbwyntiau tebyg i ddewis un cynrychiolydd i siarad ar ran eu grŵp.

Ceir yr agenda ar gyfer y cyfarfod yn **Atodiad A**. Mae ein hasesiad cychwynnol o'r Prif Faterion wedi'i nodi yn **Atodiad B** ac mae ein hamserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais yn **Atodiad C**.

Mynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Os hoffech fynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol, cysylltwch â Kay Sully, sef y Rheolwr Achos, gan ddefnyddio'r manylion a nodir ar frig y llythyr hwn. Gofynnir i chi gadarnhau hyn erbyn **dydd Mawrth 16 Hydref 2018**.

Bydd o gymorth o ran rheoli'r cyfarfod ac o fudd i bawb os byddwch hefyd yn:

- Dweud wrthym os byddwch yn dymuno siarad yn y cyfarfod ac ynghylch pa eitemau ar yr agenda, gan restru'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud; a
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw ofynion arbennig sydd gennych (e.e. mynediad i'r anabl, dolen glywed ac ati).

Bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn rhoi cyfle i ddeall ein cynigion ar gyfer archwilio'r cais. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y cynigion hyn, fe allai fod yn ddefnyddiol i chi ddod i'r cyfarfod a rhannu eich safbwyntiau.

Mae croeso i chi gyfrannu ar lafar yn Gymraeg neu Saesneg yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol os dymunwch. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael yn y cyfarfod hwn ac ym mhob gwrandawriad arall. Cewch hefyd wneud Cynrychiolaethau Ysgrifenedig yn Gymraeg neu Saesneg ac ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yn Gymraeg neu Saesneg ar unrhyw adeg yn ystod yr Archwiliad.

Os ydych yn Barti â Buddiant, nid oes rhaid i chi ddod i'r Cyfarfod Rhagarweiniol er mwyn cymryd rhan yn yr Archwiliad; byddwch yn parhau i allu gwneud Cynrychiolaethau Ysgrifenedig a chymryd rhan yn unrhyw un o'r gwrandawiriadau a drefnir. Os na fyddwch yn dymuno bod yn Barti â Buddiant mwyach ac os na fyddwch eisiau cymryd rhan yn y broses archwilio, rhowch wybod i'r Rheolwr Achos yn ysgrifenedig.

Ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/>

Ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol, anfonir llythyr atoch yn nodi'r amserlen derfynol ar gyfer yr Archwiliad. Bydd cofnod sain a nodyn o'r cyfarfod yn cael eu cyhoeddi hefyd ar wefan y prosiect.

Bydd yr holl faterion perthnasol a phwysig yn cael eu hystyried pan fyddwn yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol yn yr achos hwn.

Cael y wybodaeth ddiweddaraf

Gallwch gofrestru i dderbyn diweddariadau ynglŷn â'n harchwiliad o'r cais trwy wefan y prosiect:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/gorsaf-bwer-niwclear-wylfa-newydd/>

Mae'r wefan hon yn olrhain cynnydd ac yn cynnwys yr holl ddogfennau a gohebiaeth. Gan fod y broses archwilio'n gwneud defnydd helaeth o ddogfennau electronig, argymhellwn eich bod yn ymgyswngi â'r adnodd hwn.

Gellir gweld holl ddogfennau'r Archwiliad yn electronig yn y lleoliadau a restrir yn **Atodiad D** ac ar-lein trwy Lyfrgell yr Archwiliad ar wefan y prosiect:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/gorsaf-bwer-niwclear-wylfa-newydd/>

Penderfyniadau gweithdrefnol a wneir gan yr Awdurdod Archwilio o dan adrannau 89(3) a 93(1) Deddf Cynllunio 2008

Rydym wedi gwneud sawl Penderfyniad Gweithdrefnol i'n galluogi i ddechrau ein harchwiliad o'r cais. Mae'r manylion wedi'u nodi yn **Atodiad E** ac yn cynnwys:

- Penderfyniad i dderbyn gwybodaeth ychwanegol gan yr Ymgeisydd mewn ymateb i gyngor a roddwyd o dan a51 Deddf Cynllunio 2008;
- Penderfyniad i gynnal Gwrandawriad Mater Penodol ynglŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (mae hysbysiad ffurfiol o'r gwrandawriad wedi'i nodi yn **Atodiad F**;
- Penderfyniad i gynnal Gwrandawriadau Llawr Agored (mae hysbysiad ffurfiol o'r gwrandawriadau wedi'i nodi yn **Atodiad F**;
- Penderfyniad i ofyn i'r Ymgeisydd ystyried cyflwyno Datganiad(au) Tir Cyffredin â sefydliadau sy'n cynrychioli'r Gymraeg ac sydd wedi cyflwyno Cynrychiolaeth Berthnasol; a
- Penderfyniad mewn ymateb i geisiadau o dan a102A ac a102B Deddf Cynllunio 2008 i ddod yn Barti â Buddiant.

Eich statws yn yr Archwiliad

Anfonwyd y llythyr hwn atoch gan eich bod chi (neu'r corff rydych chi'n ei gynrychioli) yn dod o fewn un o'r categorïau yn a88(3) Deddf Cynllunio 2008.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/>

Os ydych wedi gwneud Cynrychiolaeth Berthnasol, os oes gennych fuddiant cyfreithiol yn y tir y mae'r cais yn effeithio arno, neu os ydych yn Awdurdod Lleol perthnasol (cyfeirnodau sy'n dechrau â 2001, WPN, WYLF-AP neu WYLF-S57), bydd gennych statws ffurfiol fel Parti â Buddiant yn yr Archwiliad.

Bydd Partion â Buddiant yn derbyn hysbysiadau gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn awtomatig ynghylch yr Archwiliad drwy gydol y broses a chânt wneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar ynghylch y cais.

Os ydych yn ymgynghorai rhagnodedig (h.y. yn gorff a nodir yn y rheoliadau perthnasol sy'n ategu Deddf Cynllunio 2008) ond heb wneud Cynrychiolaeth Berthnasol (cyfeirnod sy'n dechrau ag WYLF-SP), ni fyddwch yn Barti â Buddiant fel mater o drefn. Fodd bynnag, yn dilyn y Cyfarfod Rhagarweiniol, cewch gyfle pellach i hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio eich bod yn dymuno cael eich trin fel Parti â Buddiant.

Os nad ydych yn Barti â Buddiant nac yn ymgynghorai rhagnodedig (h.y. yn gorff a nodir yn y rheoliadau perthnasol sy'n ategu Deddf Cynllunio 2008), byddwch wedi derbyn y llythyr hwn gan ein bod ni eisiau eich gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol fel 'Person Arall' oherwydd y bydd wedi ymddangos i ni y gallai'r Archwiliad gael ei hysbysu gan eich cyfranogiad. Bydd gan 'Bersonau Eraill' gyfeirnod sy'n dechrau ag WYLF-OP.

Os nad ydych yn siŵr os ydych yn Barti â Buddiant, cysylltwch â'r Rheolwr Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn. Mae gwybodaeth ynghylch statws ffurfiol Partion â Buddiant a sut y gallwch gymryd rhan yn y broses wedi'i nodi yng Nghyfres Nodiadau Cyngor 8 yr Arolygiaeth Gynllunio ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/>

Dyfarnu Costau

Hefyd, rydym yn tynnu eich sylw at y posibilrwydd o Ddyfarnu Costau yn erbyn Partion â Buddiant sy'n ymddwyn yn afresymol. Dylech fod yn ymwybodol o'r canllawiau costau perthnasol "Dyfarnu costau; archwilio ceisiadau am orchmynion caniatâd datblygu" sy'n berthnasol i brosiectau Seilwaith Cenedlaethol. Mae'r canllawiau hyn ar gael yn:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/guidance/>

Rheoli Gwybodaeth

Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio ymrwymiad i dryloywder. Felly, bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir ar gyfer y prosiect hwn (os caiff ei derbyn gan y Panel) ac unrhyw gofnod o gyngor a ddarparwyd, yn cael eu cyhoeddi ar wefan y prosiect.

O ystyried nifer ac amllder y llythyrau y mae angen i'r Arolygiaeth Gynllunio eu hanfon at Partion â Buddiant yn ystod Archwiliad, mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n ceisio cyfathrebu â phobl trwy e-bost lle bynnag y bo'n bosibl. Os ydych chi'n gallu derbyn cyfathrebiadau trwy e-bost, rhwch gadarnhad i ni o hynny.

Sylwer, er mwyn hwyluso archwiliad effeithiol a theg, ystyriwn fod angen cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth bersonol. Os hoffech gael gwybod mwy am sut rydym yn

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/>

defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth bersonol, darllenwch ein yma Hysbysiad Preifatrwydd: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/help-2/privacy-and-cookie/>

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r holl bartion wrth archwilio'r cais hwn.

Yn gywir

Frances Fernandes

Frances Fernandes

Aelod Arweiniol y Panel o Arolygwyr Archwilio

Atodiadau

- A** Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol
- B** Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion
- C** Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais
- D** Argaeledd dogfennau'r Archwiliad
- E** Penderfyniadau gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio
- F** Hysbysiad ffurfiol o'r Gwrandawriad Mater Penodol ynglŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft ar 24 Hydref 2018 a hysbysiad ffurfiol o'r Gwrandawriad Llawr Agored ar 25 Hydref 2018.

Nid yw'r cyfartherbiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.



<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/>

Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol

Dyddiad y cyfarfod: **Dydd Mawrth 23 Hydref 2018**

Seddau ar gael o: **09:00am**

Amser dechrau'r cyfarfod: **10:00am**

Lleoliad: **Maes Sioe Ynys Môn, Gwalchmai, Caergybi, LL65 4RW**

09.00am	Cofrestru'n agor
Eitem 1 (10.00am)	Croeso a chyflwyniadau
Eitem 2	Sylwadau'r Awdurdod Archwilio am y broses archwilio
Eitem 3	<p>a) Gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd oddi wrth yr Ymgeisydd mewn ymateb i gyngor a51</p> <p>b) Ceisiadau gweithdrefnol yn ymwneud â'r eitemau hyn sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol neu erbyn 16 Hydref 2018.</p>
Eitem 4	Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion (Atodiad B)
Eitem 5	<p>Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais (Atodiad C): Cyflwyniadau ysgrifenedig.</p> <p>a) Cwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio</p> <p>b) Datganiadau o Dir Cyffredin a Datganiad o Gyffredinedd</p> <p>c) Cynrychiolaethau Ysgrifenedig</p> <p>d) Adroddiad(au) ar yr Effaith Leol</p> <p>e) Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais</p> <p>f) Atodlen Caffael Gorfodol ac atodlenni eraill cysylltiedig y gofynnwyd amdanynt erbyn Terfyn Amser 2</p> <p>g) Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES)</p> <p>h) Atodlen Lliniaru (sy'n dwyn ynghyd yr holl fesurau lliniaru ymgorfforedig mewn un ddogfen)</p>
Eitem 6	<p>Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais (Atodiad C)</p> <p>a) Gwrandawriad Mater Penodol ynglŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar 24 Hydref 2018</p> <p>b) Gwrandawriad Llawr Agored ar 25 Hydref 2018</p> <p>c) Cyfnod a neilltuwyd ar gyfer Gwrandawriadau yn ystod mis Ionawr a mis Mawrth 2019</p> <p>d) Hysbysiadau yn ymwneud â gwrandawriadau</p>

Atodiad A

Eitem 7	Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais (Atodiad C): Archwiliadau Safle a) Archwiliadau Safle Di-gwmni b) Archwiliadau Safle gyda Chwmni c) Cyfnod a neilltuwyd ar gyfer Archwiliadau Safle gyda Chwmni yn ystod mis Ionawr a/neu fis Mawrth 2019 d) Hysbysiadau yn ymwneud ag archwiliadau safle
Eitem 8	Rhwymedigaethau statudol o dan y rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol mewn perthynas â materion Trawsffiniol
Eitem 9	Unrhyw faterion eraill

Cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Dalier sylw: Gellir newid yr agenda yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn diweddu'r cyfarfod cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi'u gwneud. Os bydd unrhyw faterion ychwanegol i'w trafod neu os bydd cyflwyniadau'n cymryd cyfnod sylweddol o amser, gall yr Awdurdod Archwilio newid trefn eitemau'r agenda a chyflwyno egwylliau yn y trafodion o bosibl.

Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion

Dyma'r asesiad cychwynnol o'r prif faterion sy'n deillio o'r ystyriaeth gan yr Awdurdod Archwilio o'r dogfennau cais a Chynrychiolaethau Perthnasol a dderbyniwyd. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr neu gyfyngedig o'r holl faterion perthnasol. Wrth benderfynu ar argymhelliad, bydd yr Awdurdod Archwilio'n ystyried yr holl faterion pwysig a pherthnasol a godwyd yn ystod yr Archwiliad.

Mae'r polisi a gofynion caniatâd sy'n gysylltiedig â Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) yn rhan annatod o'r Archwiliad ac felly ni chânt eu nodi fel prif faterion ar wahân. Yn yr un modd, mae effeithiolrwydd mesurau lliniaru arfaethedig ac i ba raddau y byddai mesurau o'r fath yn cael eu sicrhau trwy'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn ystyriaethau a fydd yn parhau drwy gydol yr Archwiliad. Dylid nodi bod nifer o'r prif faterion a nodir isod yn gorgyffwrdd a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Archwiliad.

Nid yw'r rhestr wedi'i chyflwyno mewn unrhyw drefn pwysigrwydd.

1. Ansawdd Aer gan gynnwys llwch

- Effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad arfaethedig ar ansawdd aer
- Digonolrwydd mesurau amgylcheddol a gynhwysir yn y cynigion dylunio a lliniaru

2. Bioamrywiaeth a Chadwraeth Ddaearegol

- Effeithiau ar gynefinoedd, safleoedd a rhywogaethau, a digonolrwydd cynigion lliniaru
- Goblygiadau ar gyfer safleoedd dynodedig y Deyrnas Unedig ac Ewropeaidd a'u nodweddion cymwys, gan gynnwys aflonyddu ar gynefin a cholli cynefin, aflonyddu ar rywogaethau, perygl i ffynonellau bwyd morol, dadleoli adar, cynigion lliniaru a'r angen am fonitro parhaus

3. Newid yn yr Hinsawdd a Chydnerthedd

- Dylunio ar gyfer lliniaru ac addasu
- Ôl troed carbon

4. Caffael Gorfodol

- Cyfiawnhad dros gaffael yn orfodol y tir, yr hawliau, y pwerau a'r pwerau meddiant dros dro, a geisir gan y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft
- Dewisiadau amgen o ran lleiniau unigol a'r llwybr
- Tir a chyfarpar Ymgymerywr Statudol a niwed posibl i gyflawni ymgymeriad ac unrhyw angen am dir cyfnewid yn y cyd-destun hwnnw
- Tir y Goron
- Digonolrwydd cyllid ar gyfer materion, gan gynnwys malltod

- Cyfyngiadau ar hawliau tramwy a mynediad a gwaith ar eiddo sy'n debygol o gael effaith uniongyrchol y tu hwnt i fuddiannau eiddo a therfynau caffael gorfodol a geisir sydd wedi'u diffinio yn y Llyfr Cyfeirio, o ystyried arfer pwerau defnydd dros dro yn benodol
- Y dull a ddefnyddiwyd i amlygu partïon Categori 3

5. Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft

- Digonolrwydd y DCO drafft, gan gynnwys Gwaith Morol a gofynion
- Darpariaethau amddiffynnol
- Digonolrwydd y DCO drafft o ran datgomisiynu
- Digonolrwydd y Cod Ymarfer Adeiladu
- Y broses ar gyfer cyflawni gofynion

6. Yr Amgylchedd Hanesyddol

- Effeithiau ar asedau treftadaeth a'u lleoliad, gan gynnwys asedau archaeolegol sydd wedi'u dynodi a heb eu dynodi

7. Y Dirwedd a Gweledol

- Effeithiau ar y dirwedd yn yr ardaloedd lle mae'r datblygiad arfaethedig ac o ble y gellir gweld y cynigion yn ddamcaniaethol, gan gynnwys lleoliad tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol, llwybrau pellter hir a golygfeydd a werthfawrogir yn lleol
- Effaith weledol y cynigion, gan gynnwys yn ystod adeiladu a gweithredu
- Ystyriaeth o effeithiolrwydd y mesurau lliniaru arfaethedig sydd wedi'u hymgorffori, gan gynnwys i ba raddau y cânt eu sicrhau trwy'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu a sut y maent yn mynd i'r afael â chyflawni dyluniad da
- Rôl y cynllun gwella tirwedd a chynefin arfaethedig, ac i ba raddau y gellir ei orfodi a'i gyflawni
- Hyd y cyfnod(au) cynnal a chadw/rheoli/ôl-ofal

8. Yr Amgylchedd Morol

- Modelu hydro-geomorffoleg, hydrodynameg a dynameg tonnau
- Effeithiau sŵn ar famaliaid môr
- Effeithiau ar ansawdd dŵr y môr
- Digonolrwydd mesurau amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn y dyluniad, dewisiadau amgen a ystyriwyd a chynigion lliniaru

9. Sŵn a Dirgryniad

- Effeithiau sŵn a dirgryniad adeiladu, gweithredol a datgomisiynu ar breswylwyr lleol, busnesau a bywyd gwyllt
- Sŵn a dirgryniad o draffig a gynhyrchir gan adeiladu, cynnal a chadw a datgomisiynu
- Sefydlu lefelau uchaf cytunedig ar gyfer sŵn, amlygiadau ac oriau gwaith

10. Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol

- Effeithiau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
- Effeithiau gweithwyr sy'n dod i mewn ar y cymunedau sy'n eu derbyn (gan gynnwys ystyriaethau cyfraith a threfn, addysg a'r effaith ar gyfleusterau cymunedol)
- Effeithiau ar iechyd y gymuned sy'n derbyn a'r gweithlu sy'n dod i mewn
- Effeithiau ar lety
- Effeithiau yn ymwneud â llety dros dro ar y safle
- Effeithiau ar fusnesau lleol, gan gynnwys twristiaeth a'r gadwyn gyflenwi leol
- Effeithiau ar y farchnad lafur

11. Traffig a Thrafnidiaeth

- Yr effaith y byddai traffig a gynhyrchir gan y cynnig yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd sy'n gwasanaethu'r safle
- Effeithiau ar wasanaethau brys
- Effeithiau cynigion ar gyfer y ganolfan logisteg, y cyfleuster parcio a theithio a chyfleusterau parcio ar y safle

Amserlen ddrafft ar gyfer Archwilio'r cais

Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i gwblhau archwilio'r cais erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.

Bydd archwiliad yr Awdurdod Archwilio o'r cais yn digwydd yn bennaf ar ffurf ystyried cyflwyniadau ysgrifenedig. Hefyd, bydd yr Awdurdod Archwilio'n ystyried unrhyw gynrychiolaethau llafar a wnaed mewn Gwrandawiadau.

Eitem	Materion	Dyddiadau Dyledus
1	Cyfarfod Rhagarweiniol	Dydd Mawrth 23 Hydref 2018
2	Gwrandawriad Mater Penodol ynglŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft	Dydd Mercher 24 Hydref 2018
3	Gwrandawriad Llawr Agored	Dydd Iau 25 Hydref 2018
4	Cyhoeddi'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio: <ul style="list-style-type: none"> • Amserlen yr Archwiliad • Cwestiynau Ysgrifenedig • Hysbysiad o unrhyw wrandawiadau ac Archwiliadau Safle gyda Chwmni 	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol
5	Terfyn Amser 1 Terfyn amser ar gyfer derbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais • DCO drafft diwygiedig yn dilyn y Gwrandawriad Mater Penodol ynglŷn â'r DCO drafft • Sylwadau ar Gynrychiolaethau Perthnasol • Crynodebau o'r holl Gynrychiolaethau Perthnasol sydd dros 1,500 o eiriau • Cyflwyno dogfennau ôl-wrandawriad, gan gynnwys unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig o 	Dydd Mawrth 13 Tachwedd 2018

	<p>achos llafar</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio 	
6	<p>Terfyn Amser 2</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais • Datganiadau o Dir Cyffredin a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio • Datganiad o Gyffredinedd Datganiadau o Dir Cyffredin • Yr Atodlen Caffael Gorfodol • Cyflwyno'r atodlen a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio mewn perthynas â buddiannau a Thir y Goron, gan gynnwys sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cydymffurfio ag adran 135 Deddf Cynllunio 2008 • Cyflwyno'r atodlen a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio mewn perthynas â thir ymgwymerwyr statudol a thir categori arbennig a diddymu hawliau a symud cyfarpar ymgwymerwyr statudol ac ati, gan gynnwys sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu bodloni adrannau 127, 132 a 138 Deddf Cynllunio 2008 • Matricsau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr Ymgeisydd wedi'u diweddarau, i lywio'r Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) • Atodlen Lliniaru (sy'n dwyn ynghyd yr holl fesurau lliniaru ymgorfforedig mewn un ddogfen) • Adroddiadau ar yr Effaith Leol gan unrhyw awdurdodau lleol • Cynrychiolaethau Ysgrifenedig • Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio 	<p>Dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar y dogfennau cais wedi'u diweddarau a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd mewn ymateb i gyngor Adran 51 • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd ar ôl diwedd y cyfnod Cynrychiolaethau Perthnasol • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawriad Llawr Agored • Hysbysiad o ddymuniad i wneud cynrychiolaethau llafar mewn unrhyw Wrandawriad Mater Penodol ynglŷn â'r DCO drafft • Hysbysiad o ddymuniad i wneud cynrychiolaethau llafar mewn Gwrandawriad Mater Penodol • Hysbysiad o ddymuniad i fynychu Archwiliad Safle gyda Chwmni • Cyflwyno lleoliadau / safleoedd awgrymedig i'r Panel eu cynnwys yn rhan o'i Archwiliadau Safle Di-gwmni ac ar gyfer yr Archwiliadau Safle gyda Chwmni, gan gynnwys y materion i'w harsylwi yno, gwybodaeth ynghylch p'un a ellir cael mynediad i'r safle ar dir cyhoeddus a'r rhesymau dros enwebu pob safle • Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio 	
7	<p>Terfyn Amser 3</p> <p>Terfyn amser i'r Awdurdod Archwilio dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais • Atodlen Caffael Gorfodol wedi'i diweddarau • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau yn ymwneud â buddiannau a Thir y Goron a chydymffurfio ag adran 135 Deddf Cynllunio 2008 a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 2 • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniad yn ymwneud â 	<p>Canol Dydd Dydd Mawrth 18 Rhagfyr 2018</p>

	<p>thir ymgwymerwyr statudol a thir categori arbennig a diddymu hawliau a symud cyfarpar ymgwymerwyr statudol ac ati</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar Adroddiadau ar yr Effaith Leol • Sylwadau ar Gynrychiolaethau Ysgrifenedig ac ymatebion i sylwadau ar Gynrychiolaethau Perthnasol • Sylwadau ar ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio • Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio 	
8	Dyddiad a gedwir ar gyfer gwrandawiadau neu Archwiliad Safle gyda Chwmni	Dydd Llun 7 Ionawr 2019
9	Dyddiad a gedwir ar gyfer gwrandawiadau neu Archwiliad Safle gyda Chwmni	Dydd Mawrth 8 Ionawr 2019
10	Dyddiad a gedwir ar gyfer gwrandawiadau neu Archwiliad Safle gyda Chwmni	Dydd Mercher 9 Ionawr 2019
11	Dyddiad a gedwir ar gyfer gwrandawiadau neu Archwiliad Safle gyda Chwmni	Dydd Iau 10 Ionawr 2019
12	Dyddiad a gedwir ar gyfer gwrandawiadau neu Archwiliad Safle gyda Chwmni	Dydd Gwener 11 Ionawr 2019
13	<p>Terfyn Amser 4</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais • Atodlen Caffael Gorfodol wedi'i diweddarau • Unrhyw gadarnhad ysgrifenedig sy'n ofynnol gan y Goron mewn perthynas ag adran 135 Deddf Cynllunio 2008 sy'n darparu cadarnhad dogfennol nad oes unrhyw fuddiannau'n gysylltiedig a/neu fod awdurdod y Goron yn cydsynio • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawriad Caffael Gorfodol • Cyflwyniadau ôl-wrandawriad gan gynnwys 	Dydd Iau 17 Ionawr 2019

	<p>cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio 	
14	<p>Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwestiynau Ysgrifenedig Ychwanegol yr Awdurdod Archwilio (os cânt eu cyflwyno) 	<p>Dydd Mercher 30 Ionawr 2019</p>
15	<p>Yr Awdurdod Archwilio yn cyflwyno:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hysbysiad o unrhyw Wrandawiadau neu Archwiliadau Safle gyda Chwmni 	<p>Dydd Mawrth 5 Chwefror 2019</p>
16	<p>Terfyn Amser 5</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais • DCO drafft diwygiedig yr Ymgeisydd • Datganiadau o Dir Cyffredin wedi'u diweddarau • Datganiad o Gyffredinedd o Ddatganiadau o Dir Cyffredin wedi'i ddiweddarau • Atodlen Caffael Gorfodol wedi'i ddiweddarau • Atodlen Lliniaru wedi'i diweddarau (sy'n dwyn ynghyd yr holl fesurau lliniaru ymgorfforedig mewn un ddogfen • Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Ychwanegol yr Awdurdod Archwilio (os yw'n berthnasol) • Ymatebion i unrhyw wybodaeth arall a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio 	<p>Canol Dydd Dydd Mawrth 12 Chwefror 2019</p>
17	<p>Terfyn Amser 6</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais • Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Ychwanegol yr Awdurdod Archwilio (os yw'n 	<p>Canol Dydd Dydd Mawrth 19 Chwefror 2019</p>

	berthnasol) <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio 	
18	Dyddiad a gedwir ar gyfer gwrandawiadau neu Archwiliad Safle gyda Chwmni	Dydd Llun 4 Mawrth 2019
19	Dyddiad a gedwir ar gyfer gwrandawiadau neu Archwiliad Safle gyda Chwmni	Dydd Mawrth 5 Mawrth 2019
20	Dyddiad a gedwir ar gyfer gwrandawiadau neu Archwiliad Safle gyda Chwmni	Dydd Mercher 6 Mawrth 2019
21	Dyddiad a gedwir ar gyfer gwrandawiadau neu Archwiliad Safle gyda Chwmni	Dydd Iau 7 Mawrth 2019
22	Dyddiad a gedwir ar gyfer gwrandawiadau neu Archwiliad Safle gyda Chwmni	Dydd Gwener 8 Mawrth 2019
23	Terfyn Amser 7 Terfyn amser ar gyfer derbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais • Atodlen Lliniaru derfynol (sy'n dwyn ynghyd yr holl fesurau lliniaru ymgorfforedig mewn un ddogfen • Cyflwyniadau ôl-wrandawriad gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar • Ymatebion i unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio 	Dydd Iau 14 Mawrth 2019
24	Terfyn Amser 8 Terfyn amser ar gyfer derbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais • Datganiadau o Dir Cyffredin Terfynol • Datganiad o Gyffredinedd o Ddatganiadau o Dir Cyffredin terfynol • Atodlen Caffael Gorfodol derfynol 	Dydd Llun 25 Mawrth 2019

	<ul style="list-style-type: none"> Fersiwn derfynol wedi'i diweddarau o'r Llyfr Cyfeirio DCO drafft terfynol i'w gyflwyno gan yr Ymgeisydd ar y templed Offeryn Statudol (OS) gyda'r adroddiad dilysu Ymatebion i unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio 	
25	<p>Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) 	Dydd Mercher 27 Mawrth 2019
26	<p>Dyddiad a gedwir i'r Awdurdod Archwilio gyflwyno:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ceisiadau am unrhyw wybodaeth bellach o dan Reol 17 (os yw'n ofynnol) 	Dydd Mercher 3 Ebrill 2019
27	<p>Terfyn amser 9</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Canllaw'r Ymgeisydd i'r Cais Sylwadau ar y RIES Ymatebion i unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio 	Dydd Mercher 10 Ebrill 2019
28	<p>Terfyn amser 10</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Canllaw terfynol yr Ymgeisydd i'r Cais Ymatebion i sylwadau ar y RIES Ymatebion i unrhyw wybodaeth bellach a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio 	Dydd Mercher 17 Ebrill 2019
29	<p>Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i gwblhau archwilio'r cais erbyn diwedd y cyfnod 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.</p>	Dydd Mawrth 23 Ebrill 2019

Dyddiadau Cyhoeddi

Cyhoeddir yr holl wybodaeth a dderbynnir ar wefan y prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno. Bydd Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddarau drwy gydol yr Archwiliad a gellir cael mynediad iddi drwy dudalen y prosiect. Rhoddir cyfeirnod unigryw i bob dogfen. Bydd y cyfeirnodau hyn yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod Archwilio yn ystod yr Archwiliad.

Agendâu Gwrandawiadau

Sylwer y byddwn yn anelu at gyhoeddi agenda ddrafft fanwl ar gyfer pob gwrandawriad ar wefan y prosiect o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad; ond mae'n bosibl y bydd yr union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawriad yn newid yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio.

Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES)

Lle bydd yr Ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol neu Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gyda'r cais am DCO, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio yn penderfynu cyhoeddi Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) yn ystod yr Archwiliad. Mae'r RIES yn gyfrif ffeithiol o'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Awdurdod Archwilio ar faterion yn ymwneud â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod yr Archwiliad hyd at ddyddiad cyhoeddi'r RIES, er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, fel awdurdod cymwys, i gyflawni ei ddyletswydd. Nid barn yr Awdurdod Archwilio ar faterion yn ymwneud â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ydyw. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gwahodd sylwadau ar y RIES a bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried fel rhan o Argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar yr ymgynghoriad ar y RIES i fodloni ei rwymedigaethau o dan Reoliad 63(3) y Rheoliadau Cynefinoedd a/neu Reoliad 28 y Rheoliadau Morol oddi ar yr Arfordir.

Argaeledd dogfennau'r Archwiliad

Bydd yr holl ddogfennau cais, gan gynnwys Cynrychiolaethau Perthnasol, ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ac wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad, sydd ar gael ar dudalen we'r prosiect:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/gorsaf-bwer-niwclear-wylfa-newydd/>

Gellir gweld dogfennau'n electronig hefyd yn y lleoliadau canlynol. Sylwer, mae'n bosibl y bydd angen i chi ddod â rhyw fath o brawf adnabod i ddefnyddio'r cyfrifiadur yn y lleoliadau hyn.

Lleoliadau Adneuo Electronig:

Awdurdod Lleol	Llyfrgell	Oriau Agor
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Llyfrgell Abergele Market Street Abergele LL22 7BP Ffôn: 01492 577505 E-bost: abergele.library@conwy.gov.uk	Dydd Llun 09:30-17:00 Dydd Mawrth 09:30-13:00 Dydd Mercher 13:30-17:00 Dydd Iau 09:30-15:00 Dydd Gwener 09:30-17:00 Dydd Sadwrn 09:30-12:30 Dydd Sul – Ar gau
	Llyfrgell Conwy Y Neuadd Ddinesig Castle Street Conwy LL32 8AY Ffôn: 01492 576089 E-bost: conwy.library@conwy.gov.uk	Dydd Llun 09:30-17:00 Dydd Mawrth 10:00-19:00 Dydd Mercher 09:30-12:30 Dydd Iau 14:00-17:00 Dydd Gwener 09:30-17:00 Dydd Sadwrn 09:30-12:30 Dydd Sul – Ar gau
	Llyfrgell Bae Colwyn Woodland Road West Bae Colwyn LL29 7DH Ffôn: 01492 577510 E-bost: colwynbay.library@conwy.gov.uk	Dydd Llun 09:00-17:30 Dydd Mawrth 10:00-19:00 Dydd Mercher 09:00-17:30 Dydd Iau 09:00-17:30 Dydd Gwener 09:00-17:30 Dydd Sadwrn 09:30-15:00 Dydd Sul – Ar gau

Atodiad D

	<p>Llyfrgell Llandudno Mostyn Street Llandudno LL30 2RP Ffôn: 01492 574010 E-bost: Llandudno.library@conwy.gov.uk</p>	<p>Dydd Llun 09:00-17:30 Dydd Mawrth 09:00-19:30 Dydd Mercher 09:00-17:30 Dydd Iau 10:00-19:00 Dydd Gwener 09:00-17:30 Dydd Sadwrn 09:30-15:00 Dydd Sul – Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Llanrwst Plas yn Dre Station Road Llanrwst LL26 0DF Ffôn: 01492 577545 E-bost: Llanrwst.library@conwy.gov.uk</p>	<p>Dydd Llun 09:30-17:00 Dydd Mawrth 09:30-13:00 Dydd Mercher 15:00-19:00 Dydd Iau 09:30-17:00 Dydd Gwener 09:30-17:00 Dydd Sadwrn 09:30-12:30 Dydd Sul – Ar gau</p>
Cyngor Gwynedd	<p>Llyfrgell Bangor Gwynedd Road LL57 1DT Ffôn: 01248 353479 E-bost: LLBangor@gwynedd.llyw.cymru</p>	<p>Dydd Llun 09:30-18:30 Dydd Mawrth 09:30-18:30 Dydd Mercher 09:30-17:00 Dydd Iau 09:30-17:00 Dydd Gwener 09:30-17:00 Dydd Sadwrn 09:30-13:00 Dydd Sul – Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Bethesda Coetmor Road Bethesda LL57 3DP Ffôn: 01248 600737 E-bost: LLBethesda@gwynedd.llyw.cymru</p>	<p>Dydd Llun 14:00-18:30 Dydd Mawrth 10:00-12:00 Dydd Mercher – Ar gau Dydd Iau 14:00-18:00 Dydd Gwener 14:00-17:00 Dydd Sadwrn 10:00-12:30 Dydd Sul – Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Blaenau Ffestiniog Canolfan Maenofferen Blaenau Ffestiniog LL41 3DL Ffôn: 01766 830415 E-bost: LLBlaenau@gwynedd.llyw.cymru</p>	<p>Dydd Llun 10:00-13:00 a 14:00-18:00 Dydd Mawrth 14:00-17:00 Dydd Mercher 10:00-13:00 a 14:00-18:30 Dydd Iau – Ar gau Dydd Gwener 10:00-13:00 a 14:00-18:00 Dydd Sadwrn 10:00-12:30 Dydd Sul – Ar gau</p>

Atodiad D

	<p>Llyfrgell Caernarfon Lôn Pafiliwn Caernarfon LL55 1AS Ffôn: 01286 679465 E-bost: LLCaernarfon@gwynedd.llyw.cymru</p>	<p>Dydd Llun 09:30-18:30 Dydd Mawrth 09:30-18:30 Dydd Mercher 09:30-17:00 Dydd Iau 09:30-17:00 Dydd Gwener 09:30-17:00 Dydd Sadwrn 09:30-13:00 Dydd Sul – Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Nefyn Rhodfa'r Môr Nefyn LL53 6EB Ffôn: 01758 720873 E-bost: LLNefyn@gwynedd.llyw.cymru</p>	<p>Dydd Llun 14:00-18:30 Dydd Mawrth 10:00-12:30 Dydd Mercher 14:00-18:00 Dydd Iau – Ar gau Dydd Gwener 14:00-17:00 Dydd Sadwrn - Ar gau Dydd Sul – Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Penygroes Canolfan Dechnoleg Dyffryn Nantlle Heol y Dŵr Penygroes LL54 6LR Ffôn: 01286 880427 E-bost: LLPenygroes@gwynedd.llyw.cymru</p>	<p>Dydd Llun 13:00-17:00 Dydd Mawrth 10:00-12:00 Dydd Mercher 13:00-17:00 Dydd Iau – Ar gau Dydd Gwener 13:00-17:00 Dydd Sadwrn 10:00-12:00 Dydd Sul – Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Porthmadog Canolfan Byw'n Iach a Llyfrgell Glaslyn Stryd y Llan Porthmadog LL49 9HW Ffôn: 01766 514091 E-bost: LLPorthmadog@gwynedd.llyw.cymru</p>	<p>Dydd Llun 10:00-18:30 Dydd Mawrth 10:00-18:00 Dydd Mercher 10:00-18:00 Dydd Iau 10:00-13:00 Dydd Gwener 10:00-17:00 Dydd Sadwrn 10:00-12:30 Dydd Sul – Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Cricieth Llyfrgell Cricieth Canolfan Encil y Coed High Street, Cricieth LL52 0RN Ffôn: (01766) 522256 E-bost: LLCriccieth@gwynedd.llyw.cymru</p>	<p>Dydd Llun: AR GAU Dydd Mawrth: AR GAU Dydd Mercher: 14:00 - 18:00 Dydd Iau: 10:00-12:00, 14:00-18:00 Dydd Gwener: 14:00 - 18:00 Dydd Sadwrn: AR GAU Dydd Sul: AR GAU</p>

Atodiad D

	<p>Llyfrgell Pwllheli Llyfrgell Pwllheli Neuadd Dwyfor Penlan Street Pwllheli LL53 5DE Ffôn: (01758) 612089 E-bost: LLPwllheli@gwynedd.llyw.cymru</p>	<p>Dydd Llun: 10:00 - 18:00 Dydd Mawrth: 10:00 - 13:00 Dydd Mercher: 10:00 - 17:00 Dydd Iau: 10:00 - 13:00 Dydd Gwener: 10:00 - 17:00 Dydd Sadwrn: 10:00 - 13:00 Dydd Sul: AR GAU</p>
<p>Llyfrgelloedd Cyngor Sir Ynys Môn</p>	<p>Llyfrgell Llangefni Lôn y Felin Llangefni Ynys Môn LL77 7RT Ffôn: 01248 752095 E-bost (pob Llyfrgell): libraries@ynysmon.gov.uk</p>	<p>Oriau Agor: Dydd Llun: 9:00-19:00 Dydd Mawrth: 9:00-17:00 Dydd Mercher: 9:00-13:00 Dydd Iau: 9:00-18:00 Dydd Gwener: 9:00-19:00 Dydd Sadwrn: 9:30-12:30 Dydd Sul: Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Amlwch Parys Road Amlwch Ynys Môn LL68 9AB Ffôn: 01407 830145</p>	<p>Oriau Agor: Dydd Llun: Ar gau Dydd Mawrth: 9:30-12:30 a 14:00 – 17:00 Dydd Mercher: 9:30-12:30 Dydd Iau: 14:00-19:00 Dydd Gwener: 9:30-12:30 Dydd Sadwrn: 9:30-12:30 Dydd Sul: Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Biwmares Grammar School Lane Biwmares Ynys Môn LL58 8AL Ffôn: 01248 810659</p>	<p>Oriau Agor: Dydd Llun: 14:30-18:00 Dydd Mawrth: Ar gau Dydd Mercher: 10:00-12:30 Dydd Iau: Ar gau Dydd Gwener: 9:00-13:00 Dydd Sadwrn: Ar gau Dydd Sul: Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Benllech Min-yr-Afon Benllech Tyn-y-Gongl Ynys Môn LL74 8UG Ffôn: (01248) 852348 E-bost: dcxlh@anglesey.gov.uk</p>	<p>Oriau Agor: Dydd Llun: 17:00-19:00 Dydd Mawrth: 14:00-17:00 Dydd Mercher: 10:00-12:00 a 14:00-16:00 Dydd Iau: Ar gau Dydd Gwener: 14:00-19:00 Dydd Sadwrn: 10:00-12:30 Dydd Sul: Ar gau</p>

Atodiad D

	<p>Llyfrgell Cemaes Longlascoed Bae Cemaes Ynys Môn LL67 0NN Ffôn: 01407 711025 E-bost: kcxlh@anglesey.gov.uk</p>	<p>Oriau Agor: Dydd Llun: 14:00-18:00 Dydd Mawrth: Ar gau Dydd Mercher: 09:30-12:30 Dydd Iau: Ar gau Dydd Gwener: 14:00-18:00 Dydd Sadwrn: Ar gau Dydd Sul: Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Caergybi Newry Fields Caergybi Ynys Môn LL65 1LA Ffôn: 01407 762917 E-bost: kpxlh@anglesey.gov.uk</p>	<p>Oriau Agor: Dydd Llun: 09:30-18:00 Dydd Mawrth: 09:30-18:00 Dydd Mercher: 09:30-13:00 Dydd Iau: 09:30-18:00 Dydd Gwener: 09:30-18:00 Dydd Sadwrn: 09:30-12:30 Dydd Sul: Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Porthaethwy Wood St Porthaethwy Ynys Môn LL59 5AS Ffôn: 01248 712706 E-bost: dbxlh@anglesey.gov.uk</p>	<p>Oriau Agor: Dydd Llun: Ar gau Dydd Mawrth: 13:00-18:00 Dydd Mercher: 09:30-12:30 Dydd Iau: 13:00-18:00 Dydd Gwener: 13:00-17:00 Dydd Sadwrn: 09:30-12:30 Dydd Sul: Ar gau</p>
	<p>Llyfrgell Rhosneigr High Street Rhosneigr Ynys Môn LL64 5UX Ffôn: 01407 811293 E-bost: kdxlh@anglesey.gov.uk</p>	<p>Oriau Agor: Dydd Llun: 15:30-18:00 Dydd Mawrth: Ar gau Dydd Mercher: 14:00-16:30 Dydd Iau: C10:00-12:30 Dydd Gwener: Ar gau Dydd Sadwrn: 10:00-13:00 Dydd Sul: Ar gau</p>
	<p>Cyngor Sir Ynys Môn Swyddfeydd y Cyngor Llangefni Ynys Môn LL77 7XA Ffôn: 01248 752480 E-bost: econdev@ynysmon.gov.uk</p>	<p>Oriau Agor: Dydd Llun: 08:45-17:00 Dydd Mawrth: 08:45-17:00 Dydd Mercher: 08:45-17:00 Dydd Iau: 08:45-17:00 Dydd Gwener: 08:45-17:00 Dydd Sadwrn: Ar gau Dydd Sul: Ar gau</p>

Atodiad D

Costau Argraffu	Du a Gwyn	Lliw
A4	Conwy: 15c Gwynedd: 10c Ynys Môn: 15c	Conwy: 60c Gwynedd: 50c Ynys Môn: Dd/B
A3	Conwy: 60c Gwynedd: 20c Ynys Môn: Dd/B	Conwy: £1 Gwynedd: £1 Ynys Môn: Dd/B

Dolenni i holl Lyfrgelloedd y cyngor:

<http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Libraries-Museums-and-Archives/Libraries/Libraries-and-opening-times/Libraries-and-Opening-Times.aspx>

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Libraries-and-archives/Libraries-and-archives.aspx>

<http://www.anglesey.gov.uk/leisure/libraries/libraries-my-local-library/>

E-bost:

library@conwy.gov.uk

niagruffydd@gwynedd.llyw.cymru

libraries@ynysmon.gov.uk

Penderfyniadau gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi gwneud y penderfyniadau gweithdrefnol canlynol o dan Adran 89(3) Deddf Cynllunio 2008:

1. Hysbysiad o Wrandawiadau Mater Penodol a Llawr Agored y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi gwneud penderfyniad gweithdrefnol i gynnal Gwrandawriad Mater Penodol ynglŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft ddydd Mercher 24 Hydref 2018 a Gwrandawiadau Llawr Agored ddydd Iau 25 Hydref 2018. Trefnwyd y rhain i sicrhau ein bod ni'n cael cyfle cynnar yn ystod y broses archwilio i drafod y DCO drafft ac i glywed gan Bartion â Buddiant yn y Gwrandawiadau Llawr Agored. Mae'r hysbysiad ffurfiol o'r gwrandawiadau hyn yn **Atodiad F** y llythyr hwn.

Gan y bydd y gwrandawiadau'n dechrau'n fuan ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol, rydym hefyd wedi penderfynu y dylai unrhyw un sy'n bwriadu cymryd rhan yn y gwrandawiadau hyn roi gwybod i'r Rheolwr Achos am ei fwriad i fynychu erbyn **canol dydd 17 Hydref 2018**, fel y cynghorir yn **Atodiad F**.

2. Datganiadau o Dir Cyffredin

O ran rhai o'r Prif Faterion a nodir yn **Atodiad B**, byddai o gymorth i'r Awdurdod Archwilio pe gellid paratoi Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr Ymgeisydd a rhai Partion â Buddiant penodol. Felly, mae'r amserlen ddrafft ar gyfer yr Archwiliad yn darparu terfyn amser ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Dir Cyffredin.

Nod Datganiad o Dir Cyffredin yw cytuno ar wybodaeth ffeithiol a hysbysu'r Awdurdod Archwilio a phob parti arall drwy nodi lle y ceir cytundeb a lle y ceir gwahaniaethau, yn gynnar yn y broses archwilio. Dylai roi ffocws ac arbed amser drwy nodi materion nad ydynt yn destun anghydfod neu nad oes angen iddynt fod yn destun tystiolaeth bellach. Hefyd, gall nodi'n ddefnyddiol ble a pham y gallai fod anghytundeb ynghylch dehongliad a pherthnasedd y wybodaeth. Wedyn, gellir ymhelaethu ar y rhesymau dros wahaniaethau a dehongli goblygiadau gwahaniaethau yn y dystiolaeth. Oni nodir neu y cytunir fel arall, dylai'r Datganiad o Dir Cyffredin gael ei gytuno rhwng yr Ymgeisydd a'r parti neu'r partion perthnasol eraill â buddiant, a dylai'r Ymgeisydd ei gyflwyno.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn nodi'r Datganiadau o Dir Cyffredin sydd eisoes yn cael eu paratoi fel y'u manylir yn APP-443, ond mae hefyd yn mynnu bod yr Ymgeisydd yn ystyried cyflwyno Datganiad o Dir Cyffredin gyda sefydliadau sy'n cynrychioli'r Gymraeg ac sydd wedi cyflwyno Cynrychiolaeth Berthnasol.

3. Dogfennau cais ôl-gyflwyno

Ar ôl i'r cais gael ei dderbyn, cyflwynodd yr Ymgeisydd ohebiaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 17 Awst 2018. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i gyngor a roddwyd o dan a51 Deddf Cynllunio 2008 mewn perthynas â'r Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol, Matricsau Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Llyfr Cyfeirio wedi'i ddiweddarau, Cynlluniau Tir wedi'u diweddarau a Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddarau. Mae'r dogfennau diwygiedig wedi cael eu cyhoeddi ar dudalen Prosiect Wylfa Newydd ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/gorsaf-bwer-niwclear-wylfa-newydd/>

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei derbyn yn ffurfiol i'r Archwiliad gan yr Awdurdod Archwilio. Gofynnir i Bartion â Buddiant gyflwyno unrhyw sylwadau a allai fod ganddynt ar unrhyw un o'r dogfennau uchod yn rhan o'u cynrychiolaethau erbyn **4 Rhagfyr 2018 (Terfyn Amser 2)**.

4. Cais o dan a102A ac a102B Deddf Cynllunio 2008 i ddod yn Barti â Buddiant

Yn dilyn ceisiadau a dderbyniwyd ar 6 Medi 2018 gan Katie Hayward, Wendy Vidler a Ken Vidler i ddod yn Barti â Buddiant. Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, mae'r Awdurdod Archwilio wedi penderfynu, pe byddai'r Gorchymyn a geisir gan y cais yn cael ei wneud, y gallent fod â hawl i wneud hawliad perthnasol. Felly, mae'r Awdurdod Archwilio wedi penderfynu bod y partion hyn o fewn Categori 3 fel y'i diffinnir yn a102B(4) ac felly wedi dod yn Barti â Buddiant o dan a102A.

Hysbysiad o Wrandawriad Mater Penodol ynglŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft a'r Gwrandawiadau Llawr Agored

Yn unol â Rheol 13(1) a (6) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) (yr EPR), mae'n ofynnol i ni roi 21 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrandawiadau. Gofynnwn i'r Ymgeisydd hysbysebu trefniadau'r gwrandawriad a rhoi gwybod i'r cyhoedd amdanynt erbyn dydd Mawrth 17 Hydref 2018 fan bellaf.

Gwrandawriad	Dyddiad ac amser	Lleoliad
Gwrandawriad Mater Penodol ynglŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft	Dydd Mercher 24 Hydref 2018 Bydd y drysau'n agor am 09:30 a bydd y gwrandawriad yn dechrau am 10:00.	Maes Sioe Ynys Môn, Gwalchmai, Caergybi, LL65 4RW
Gwrandawriad Llawr Agored	Dydd Iau 25 Hydref 2018 Bydd y drysau'n agor am 09:30 a bydd y gwrandawriad yn dechrau am 10:00.	Maes Sioe Ynys Môn, Gwalchmai, Caergybi, LL65 4RW
Gwrandawriad Llawr Agored	Dydd Iau 25 Hydref 2018 Bydd y drysau'n agor am 6:00pm a bydd y gwrandawriad yn dechrau am 6:30pm.	Maes Sioe Ynys Môn, Gwalchmai, Caergybi, LL65 4RW

Byddai o gymorth wrth reoli'r gwrandawiadau pe gallai Partion â Buddiant roi gwybod i'r Rheolwr Achos, sef Kay Sully, trwy'r cyfeiriad post neu e-bost a nodwyd yn y prif lythyr erbyn **canol dydd ar ddydd Mercher 17 Hydref 2018**:

- Os byddwch yn bresennol
- Os hoffech siarad yn y cyfarfod
- Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig (e.e. mynediad i'r anabl, dolen glywed)

Gwnewch yn siwr eich bod chi'n cynnwys eich cyfeirnod Parti â Buddiant yn eich gohebiaeth.

Atodiad F

Cyhoeddir yr agendâu ar gyfer y gwrandawiadau ar dudalen prosiect Wylfa Newydd ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol oddeutu 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiadau.



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer Services: 0303 444 5000
e-mail: Wylfa@pins.gsi.gov.uk

To all Interested Parties, Statutory
Parties and Other Persons

Your Ref:

Our Ref: EN010007

Date: 25 September 2018

Dear Sir/Madam

Planning Act 2008 (as amended) – Section 88 and the Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010 (as amended) – Rule 6

